# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

At: Aelodau Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)

Dyddiad: 4 Chwefror 2016

Deialu Union: 01824 712568

e-bost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Syr / Fadam

Fe'ch gwahoddir i ddod i gyfarfod o'r **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)** am **10.00 am, DYDD GWENER, 12 CHWEFROR 2016** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**MYFYRDOD TAWEL**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 10)

Cymeradwyo a llofnodi bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2015 yn gofnod cywir.

**5 DADANSODDI ADRODDIADAU AROLYGU** (Tudalennau 11 - 16)

Derbyn dadansoddiad o Adroddiadau Arolygon diweddar gan Estyn.

**6 CANLYNIADAU ARHOLIADAU 2015** (Tudalennau 17 - 28)

Ystyried adroddiad yn dadansoddi canlyniadau arholiadau 2015.

**7 HOLIADUR CCYSAGC I YSGOLION** (Tudalennau 29 - 30)

Adolygu effaith Bagloriaeth Cymru ar Addysg Grefyddol.

**8 CWRICWLWM AM OES** (Tudalennau 31 - 32)

Y diweddaraf am y gwaith o ddatblygu cwricwlwm newydd i Gymru.

Cymraeg: http://gov.wales/docs/dcells/publications/151021-a-curriculum-for-wales-a-curriculum-for-life-w.pdf
Saesneg: http://gov.wales/docs/dcells/publications/151021-a-curriculum-for-wales-a-curriculum-for-life-en.pdf

**9 Y DIWEDDARAF AM CYSAG A CHYDWEITHREDIAD O YSGOL I YSGOL** (Tudalennau 33 - 34)

Hybu cynrychiolaeth athrawon drwy gydweithrediad o ysgol i ysgol

**10 CCYSAGC** (Tudalennau 35 - 44)

(1) Derbyn cofnodion cyfarfod diwethaf y Gymdeithas yng Nglyn Ebwy ar 25 Tachwedd 2015.

(2) Cytuno ar bresenoldeb y CCYSAGC nesaf ar 8 Mawrth, 2016 yn Hwlffordd.

(3) Er gwybodaeth - CYSAG Sir Ddinbych i gynnal cyfarfod gwanwyn CCYSAGC ar 20 Mehefin 2016.

**11 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 20 Mehefin 2016

## AELODAETH

**Cynghorwyr yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

| | |
|---|---|
| Bill Tasker | Joe Welch |
| Dewi Owens | Ann Davies |
| Arwel Roberts | |

**Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol**

| | |
|---|---|
| Mr. Simon Cameron | Mary Ludenbach |
| Mr. Dominic Oakes | Mrs C Thomas |
| Y Parch. B H Jones | S Harris |
| Y Parch. Martin Evans-Jones | Is-Gapten Sian Radford |

**Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon**

| | |
|---|---|
| Mrs C Harmsworth | Mrs Maureen Phillips |

**Aelodau Cyfetholedig**

T. Ap Siôn

**COPÏAU AT:**

Bob Cynghorydd er gwybodaeth
Y Wasg a Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gyhaliwyd yn Ysgol Uwchradd Gatholig Y Bendigaid Edward Jones, Y Rhyl. , Dydd Mercher, 21 Hydref 2015 am 10.00 am.

**PRESENNOL**

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**
Cynghorwyr Arwel Roberts ac Ann Davies

**Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol**
Mr. Simon Cameron, Parch. Martin Evans-Jones, Ms. Mary Ludenbach, Ms. S Harris

**HEFYD YN BRESENNOL**
Ymgynghorydd Her GwE Phil Lord a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Karen A Evans

**MYFYRDOD TAWEL**

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig o funudau o fyfyrdod tawel.

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Rhoddwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Joe Welch, Dewi Owens a Bill Tasker.

Anfonodd y Grŵp eu cydymdeimlad diffuant at y Cynghorydd Tasker ar farwolaeth ei chwaer.

Cadarnhaodd y Cadeirydd ymddeoliad Gavin Craigen a'i ymddiswyddiad o'r Pwyllgor yn sgil hynny. Awgrymodd y Cyng. Roberts y dylid anfon llythyr o ddiolch am gyfraniad Gavin at y Pwyllgor.

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion pwyllgor Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2015 (wedi'u cylchredeg yn flaenorol).

***PENDERFYNWYD** y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar 26 Mehefin, 2015 fel cofnod cywir.*

**5 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG 2012-2103**

Cyfeiriodd Ymgynghorydd Her GwE – Phillip Lord (PL) - at yr adroddiad a ddosbarthwyd yn flaenorol ac eglurodd nad swyddogaeth y Pwyllgor oedd trafod cynnwys yr adroddiad ond cytuno ei fod yn adlewyrchiad cywir o'r hyn oedd wedi cael ei ystyried yn ystod y flwyddyn flaenorol. I'r perwyl hwnnw, arweiniodd PL y Grŵp drwy'r adroddiad fesul tudalen.

Mynegwyd pryder ynghylch nifer yr enwebiadau oedd yn weddill ar gyfer cynrychiolaeth ar CYSAG. Cadarnhaodd PL bod athrawon cyflenwi ar gael er mwyn i staff addysgu fynychu CYSAG yn ogystal â chymhorthdal teithio. Teimlwyd y gallai Penaethiaid fod yn amharod i ryddhau staff addysgu os nad oedd unrhyw fudd / pwrpas amlwg o ran yr ysgol. Awgrymwyd y gallai cynnwys mwy eitemau yn ymwneud ag ysgolion ar y rhaglen annog mwy o gyfranogiad.

Cwestiynodd y Grŵp y data ar dudalen 9 yr Adroddiad Blynyddol, yn benodol nad oes data ar gyfer canlyniadau arholiadau'r Bendigaid Edward Jones. PL i wirio a oedd y tabl ar gyfer 2013 fel y nodwyd.

***PENDERFYNWYD -** derbyn yr adroddiad blynyddol a nodi'r cynnwys.*

**6 DADANSODDI ADRODDIADAU AROLYGU**

Cyflwynodd Phil Lord yr adroddiadau arolygu a gyhoeddwyd yn ystod tymor yr haf 2015 ar gyfer:

- Ysgol Christchurch Y Rhyl
- Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun
- Ysgol Melyd, Gallt Melyd a
- Ysgol Dyffryn Iâl, Llandegla

Trafododd y Grŵp y sylwadau ychwanegol a oedd yn darparu adborth positif ar ganlyniadau perfformiad a darparu profiadau dysgu - gan gynnwys gofal, cymorth ac arweiniad - ar gyfer y rhan fwyaf o'r ysgolion a arolygwyd.

Amlygwyd meysydd i’w datblygu yn Ysgol Melyd, ynghylch cyfleoedd i ddatblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau / materion byd-eang eraill ac Ysgol Bryn Hyfryd lle'r oedd angen arweiniad ar weithredoedd cyd-addoli dyddiol.

Cynigiodd cynrychiolydd Yr Eglwys yng Nghymru, Simon Cameron fynd i Ysgol Bryn Hyfryd ar ran CYSAG ar gyfer cyd-addoli.

Mynegodd aelodau'r Grŵp rwystredigaeth o fethu gwylio gwers Addysg Grefyddol yn cael ei haddysgu. Esboniodd PL fod rhai’n wyliadwrus o ran diben ceisiadau o'r fath gyda'r camsyniad eu bod at ddibenion gwerthuso tebyg i arolygiadau a gynhelir gan Estyn.

Dywedodd y Parch Martin Evans-Jones ei fod wedi ymuno ag addoliad ar y cyd gydag ysgol y Bendigaid Edward Jones yr wythnos flaenorol a’i fod wedi bod yn brofiad da.

***PENDERFYNWYD -*** *derbyn yr adroddiad a nodi’r cynnwys.*

**7 ADDYSG GREFYDDOL YN CA3: CHWARAEWR PÊL DROED MOSLEMAIDD YN YR UWCH GYNGHRAIR**

Cyflwynodd Phil Lord gynllun gan Mary Parry, ymgynghorydd AG ar gyfer Sir Gaerfyrddin, a’i nod oedd mynd i'r afael â'r bwlch mewn dysgu AG rhwng merched a bechgyn drwy dargedu pwnc y mae bechgyn yn uniaethu yn nodweddiadol ag o - pêl-droed.

Creodd Mary Parry CD ROM yn llawn adnoddau yn seiliedig ar bêl-droedwyr Moslemaidd yn yr uwch gynghrair ac effaith eu credoau ar eu gêm ac i'r gwrthwyneb. Rhai o'r nodweddion y cyfeiriwyd atynt oedd:

- Rhoddion o 2.5% o’u cynilion i'r Gymuned Foslemaidd.
- Addasu amser gweddi o gwmpas hyfforddiant
- Moesoldeb noddwyr yn ymwneud â betio ac ati ar git y clwb
- Dathliadau yn cynnwys alcohol
- Ymprydio yn ystod Ramadan, yn enwedig ar ddiwrnodau gêm

Cytunodd y Pwyllgor fod y fformat wir yn cyflwyno testun Islam mewn modd a oedd yn cysylltu, a gellid ei addasu i gyflwyno Cristnogaeth hefyd.

**8 AG A CHYMUNEDAU LLEOL**

Eglurodd yr Ymgynghorydd Her ar gyfer GwE y gofynnwyd i ysgolion ledled Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint gyflwyno astudiaethau achos o sut y maent yn gweithio gyda grwpiau ffydd. Y syniad yw y byddent yn creu rhywbeth ysbrydoledig gan ysgolion ar gyfer ysgolion.

Roedd yr astudiaethau achos yn yr adroddiad yn dangos bod ymweliadau wedi'u cynnal i amryw o sefydliadau crefyddol; eu bod wedi mynd i wyliau a dathliadau ac wedi trafod pynciau moesegol.

Gwnaed cyfeiriad penodol at Ysgol Bryn Collen a oedd wedi gofyn am a derbyn grant gan Ymddiriedolaeth Elusennol yr Archesgob Rice Jones i brynu adnoddau ar gyfer y cwricwlwm AG.

Nodwyd sut mae cyfryngau cymdeithasol wedi cael eu defnyddio i hyrwyddo ymdrechion elusennol y Parchedig Una a'i chi Patrick yn cerdded Mur Hadrian.

Roedd y Grŵp yn ystyried a yw ysgolion yn gwneud y defnydd gorau o leoedd ac arteffactau crefyddol ar garreg eu drws at ddibenion trawsgwricwlaidd.

***PENDERFYNWYD*** *Dosbarthu'r adnodd i holl ysgol yr Awdurdod Addysg Lleol ar ran CYSAG gyda ffurflen werthuso i gael adborth.*

## 9 Y GWEINIDOG ADDYSG, HUW LEWIS A DYFODOL ADDYSG GREFYDDOL

Trafododd y Grŵp gynnwys llythyr diweddar gan y Gweinidog Addysg Huw Lewis. Cynigiodd y Parch Martin Evans-Jones ei farn y dylid cynnal y cysylltiad â Mr Lewis a'u bod yn teimlo'n gryf fel pwyllgor ynghylch lle AG yn y cwricwlwm.

Dywedodd Phil Lord wrth y Grŵp fod Cymdeithas CYSAG Cymru – yr oedd newydd ymgymryd â swydd y Cadeirydd - yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu Addysg Grefyddol o fewn y cwricwlwm newydd. Cymharodd y cynigion â'r system sydd ar waith ar hyn o bryd yn yr Alban a allai o bosibl arwain at wanhau cynnwys crefyddol o blaid moesoldeb. Awgrymodd PL bod CCYSAGC yn cynnwys amrywiaeth o arbenigedd a allai gynghori ar gwricwlwm.

Dyfalodd y Grŵp sut y gellid uno pynciau i greu prosiect trawsgwricwlaidd llwyddiannus a'r anhawster ar gynllunio gwersi gyda chynlluniau gwaith pwnc lluosog.

Cytunodd y Grŵp y dylai PL gynrychioli'r Pwyllgor a CCYSAGC ag ymgysylltu yn y dyfodol yn ymwneud â dylunio a datblygu cwricwlwm newydd.

***PENDERFYNWYD -*** *derbyn y llythyr a nodi ei gynnwys.*

## 10 CYSAG A CHYDWEITHREDIAD O YSGOL I YSGOL

Trafododd y Grŵp yr angen i hyrwyddo cynrychiolaeth athrawon ar CYSAG. Trafodwyd gwahodd grwpiau ysgolion i ddod i gyfarfodydd CYSAG.

**PENDERFYNWYD** *y dylid cysylltu ag ysgolion i fesur diddordeb.*

## 11 CCYSAGC

### (a) Cofnodion CCYSAGC - 25 Mehefin, 2015

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAG Cymru (CCYSAGC) a gynhaliwyd ar **25 Mehefin, 2015** yn yr Wyddgrug (a ddosbarthwyd yn flaenorol) er gwybodaeth i'r Aelodau.

Roedd Phil Lord wedi cyflwyno eitemau ar y Prosiect Gweithio mewn Partneriaeth ac Arwyddbyst: cynllun gan Gyngor Ewrop. Ailadroddodd PL fod Gavin Craigen wedi ymddeol a PL wedi ei ddisodli fel Cadeirydd y pwyllgor ers cyfarfod mis Mehefin.

***PENDERFYNWYD -*** *derbyn cofnodion CCYSAGC a gynhaliwyd ar* ***25 Mehefin 2015****.*

### (b) Cyfarfod CCYSAGC i'w gynnal yn Sir Ddinbych yn y dyfodol

Nodwyd y byddai Sir Ddinbych yn cynnal y CCYSAGC yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir am 10am ar 23 Mehefin 2016. Byddai gwahoddiad i'r cyfarfod yn cael ei estyn i Karen I Evans, Pennaeth Addysg.

## 12 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Byddai cyfarfod nesaf CYSAG Sir Ddinbych yn cael ei gynnal am 10.00 am ar ddydd Gwener, 12 Chwefror, 2016 yn Ysgol Dinas Bran, Llangollen.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50 a.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol**
**(CYSAG)**

| Dyddiad y Cyfarfod: | | 13 Chwefror 2015 |
|---|---|---|
| Eitem ar y Rhaglen: | **5** | Manylion yr Adroddiad |

*Cefndir yr Adroddiad:*

Mae'n ddyletswydd statudol ar CYSAG i fonitro darpariaeth Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd mewn ysgolion. Mae ganddyn nhw draddodiad hir o dderbyn adroddiadau arolygon Estyn ym mhob cyfarfod.

*Pwrpas yr Adroddiad:*

Rhoi gwybod i aelodau am ganlyniadau Adroddiadau Arolygon diweddar Estyn ar ysgolion.

*Argymhellion:*

- Derbyn yr adroddiad
- Anfon llythyr i bob ysgol i roi gwybod iddyn nhw bod adroddiad o'u harolwg wedi ei ystyried, i'w llongyfarch am yr elfennau da a nodwyd, ac i'w hatgoffa bod yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol a'r Swyddogion Gwella Ysgolion ar gael i gynorthwyo gydag unrhyw faes sydd angen ei ddatblygu neu unrhyw fater sydd angen mynd i'r afael ag o.
- Y dylid gofyn i'r AALl ddosbarthu'r llythyrau i'r ysgolion perthnasol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygu
# CYSAG Sir Ddinbych

## Gwanwyn 2015
*(Adroddiadau'n cael eu cyhoeddi yn nhymor yr Hydref)*

<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Dyddiadau</th><th>Arolygydd sy'n Adrodd</th></tr>
<tr><td>Ysgol V. P. Llanelwy</td><td>Mehefin 2015</td><td>Mrs Linda Jane Williams</td></tr>
<tr><td colspan="3">Mae Ysgol Fabanod yr Eglwys yng Nghymru a Reolir yn Wirfoddol Llanelwy yn Llanelwy, yn awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng tair a saith oed. Ar hyn o bryd, mae 113 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 28 sy'n mynychu'r feithrinfa yn rhan-amser. Mae plant yn cael eu haddysgu mewn pedwar dosbarth prif ffrwd.<br>Mae'r cyfartaledd tair blynedd ar gyfer cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ychydig o dan 20% ac yn agos at gyfartaledd Cymru. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan tua 27% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru. Mae bron pob un o'r disgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig ac ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes unrhyw ddisgybl yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Bro Dyfrdwy</td><td>Mehefin 2015</td><td>Eifion Lloyd Watkins</td></tr>
<tr><td colspan="3">Mae Ysgol Bro Dyfrdwy ym mhentref Cynwyd, tua thair milltir o Gorwen. Sefydlwyd yr ysgol ar ddau safle ym mis Ionawr 2013, o ganlyniad i uno Ysgol Maes Hyfryd ac Ysgol Llandrillo. Yn dilyn gwaith adeiladu sylweddol, symudodd yr ysgol i safle Ysgol Maes Hyfryd ym mis Medi 2014. Mae'r pennaeth cyfredol, sef cyn-bennaeth Ysgol Maes Hyfryd, wedi bod yn ei swydd ers i'r ysgol agor ym mis Ionawr 2013. Mae'r ysgol gymuned hon yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyfagos ac mae'n cael ei chynnal gan awdurdod sir Ddinbych.<br>Daw tua hanner y disgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Caiff disgyblion eu derbyn i'r ysgol fel plant oedran meithrin ar sail rhan-amser ym mis Medi yn dilyn eu trydydd pen-blwydd cyn iddynt ddechrau'n llawn amser ym mis Medi sy'n dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae 116 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr ac maent yn cael eu haddysgu mewn pum dosbarth, tri ohonynt yn cynnwys disgyblion o oedran cymysg.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Hiraddug</td><td>Medi 2015</td><td>Sheila Margaret Birkhead</td></tr>
<tr><td colspan="3">Mae Ysgol Hiraddug yn Ysgol Gynradd gymunedol a gynhelir gan yr awdurdod lleol ym mhentref Dyserth, ym mhen gogledd-ddwyreiniol Dyffryn Clwyd yn Sir Ddinbych. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng tair a saith oed mewn wyth dosbarth.<br>Mae tua 14% o'r disgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol yn nodi 17% o'r disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Nid oes unrhyw ddisgybl yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.</td></tr>
</table>

## SYLWADAU CADARNHAOL

### Perfformiad Cyfredol:
Mae staff yn darparu cyfleoedd da iawn i ddisgyblion ddatblygu eu haddysg ysbrydol, gymdeithasol, foesol a diwylliannol (Hiraddug).

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r Canlyniadau?

### Lles:
- Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o'u rôl yn y gymuned leol drwy, er enghraifft, y cysylltiadau cryf gyda'r eglwys gadeiriol ac ymweliadau â'r hosbis leol. (Ysgol V. P. Llanelwy)
- Mae disgyblion yn trefnu gweithgareddau i godi arian i nifer o elusennau ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth y disgyblion o anghenion pobl eraill. Enghraifft dda o hyn yw'r prynhawn coffi llwyddiannus i godi arian ar gyfer apêl Nepal. (Bro Dyfrdwy)
- Mae disgyblion iau yn datblygu dealltwriaeth werthfawr o barch, gofal a phryder am eraill, o fewn yr ysgol ac yn y byd ehangach. (Hiraddug)

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Profiadau dysgu:**

- Mae ymweliadau gan fusnesau lleol, cysylltiadau â'r eglwys gadeiriol a gweithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi dysgu'r disgyblion yn dda. (Ysgol V.P. Llanelwy)
- Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o ddinasyddiaeth fyd-eang trwy eu cyfranogiad yn y Diwrnod Ewropeaidd er enghraifft, a phrosiect o gefnogaeth i blentyn yn Borneo. (Ysgol V.P. Llanelwy)
- Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o brofiadau amrywiol a diddorol ar draws yr ysgol, sy'n cwrdd â holl ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn effeithiol. (Bro Dyfrdwy)
- Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang, er enghraifft trwy waith thematig megis taith tedi bêr i Ffrainc, a chysylltiadau â gwledydd eraill fel Lesotho. (Bro Dyfrdwy)
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da a datblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion yn effeithiol. Mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion fyfyrio a datblygu eu hagweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol trwy wasanaethau ysgol gyfan rheolaidd a gweithgareddau eraill yn y gymuned leol. (Bro Dyfrdwy)
- Mae cysylltiadau diddorol iawn gydag India a Tsieina yn helpu disgyblion i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth werthfawr o ddiwylliannau ac arferion eraill. Mae hyn yn cyfoethogi ethos gofalgar a pharchus yr ysgol. (Hiraddug)

**Gofal, cymorth ac arweiniad:**

- Mae staff yn datblygu datblygiad ysbrydol, diwylliannol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn dda. Mae ymwelwyr ac ymweliadau y tu allan i'r ysgol yn darparu profiadau gwerth chweil sy’n helpu datblygiad cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. (Ysgol V.P. Llanelwy)
- Mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion fyfyrio a datblygu eu hagweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol trwy wasanaethau ysgol gyfan rheolaidd a gweithgareddau eraill yn y gymuned leol. (Bro Dyfrdwy)
- Caiff disgyblion gyfleoedd buddiol iawn ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Er enghraifft, mae cysylltiadau rhyngwladol cryf yr ysgol yn datblygu dealltwriaeth ysbrydol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Mae’r ddarpariaeth o ansawdd uchel ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn y Cyfnod Sylfaen yn arwain at ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd gonestrwydd, tegwch a pharch at eraill. (Hiraddug)

**Yr Amgylchedd Dysgu:**

- Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol iawn lle mae staff yn trin pob disgybl yn gyfartal, yn deg a chyda pharch. Mae staff yn hyrwyddo amrywiaeth a chyfleoedd cyfartal yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod gan bob disgybl fynediad cyfartal i bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae ethos gofalgar yr ysgol yn annog disgyblion i gael parch a goddefgarwch tuag at eraill. (Ysgol V.P. Llanelwy)
- Mae'r ysgol yn gymuned glos a chroesawgar sy'n creu ethos cynhwysol ac mae ystod o bolisïau a gweithdrefnau yn eu lle i hyrwyddo cydraddoldeb a dathlu amrywiaeth. (Bro Dyfrdwy)

- Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod a dathlu amrywiaeth ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn dda.  (Hiraddug)

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

**Gweithio mewn Partneriaeth:**

- Mae cysylltiadau gyda'r eglwys gadeiriol, y gymuned leol ac asiantaethau allanol yn gwneud cyfraniad effeithiol i ansawdd darpariaeth yr ysgol. (Ysgol V.P. Llanelwy)

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG)**

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | 13 Chwefror 2015 |
| Eitem ar y Rhaglen: | **6** | Manylion yr Adroddiad |

*Cefndir yr Adroddiad:*

Mae'r adroddiad yn cynnwys canlyniadau manwl arholiadau Addysg Grefyddol TGAU a Lefel Uwch ar gyfer 2013 a 2014, ynghyd â dadansoddiad o'r gwahaniaethau a'r tueddiadau.

*Pwrpas yr Adroddiad:*

Er mwyn i'r aelodau allu arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â'u dyletswydd statudol i fonitro darpariaeth Addysg Grefyddol mewn ysgolion, ac i gael y wybodaeth lawn am ganlyniadau'r flwyddyn honno.

*Argymhellion:*

- Derbyn yr adroddiad.
- Ystyried unrhyw gamau pellach y gallai fod yn ofynnol

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Crynodeb o ganlyniadau arholiadau 2014-15**
**Summary of Examination Results 2014-15**
*I CYSAG Sir Ddinbych Chewfror 2016* / For Denbighshire SACRE Spring 2016

*Astudiaethau Crefyddol TGAU – Cwrs Llawn* / GCSE Religious Studies - Full Course

*Yr Holl ymgeiswyr* / All candidates:

| ***Ysgol*** **/School** | **2015** *Nifer a safodd yr arholiad/* entry | **2014** *Nifer a safodd yr arholiad/* entry | **2015 A*-C %** | **2014 A*-C %** | ***Gwahaniaeth* / Difference %** | **+/- *Cenedlaethol* / National 2014** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Dinbych/* Denbigh | 16 | 27 | 93.8% | *77.8%* | +16% | +18.8% |
| Glan Clwyd | 22 | 20 | 77.3% | *80.0%* | -2.7% | +2.3% |
| Prestatyn | 236 | 220 | 84.3% | *82.3%* | +2% | +9.3% |
| Dinas Bran | 101 | 80 | 53.5% | *78.8%* | -25.3% | -21.5% |
| Brynhyfryd | 22 | 16 | 86.4% | *93.8%* | -7.4% | +11.4% |
| *Y Rhyl /* Rhyl | 37 | 42 | 45.9% | *54.8%* | -8.9% | -29.1% |
| *Ben Ed. Jones /* Bl Ed Jones | 50 | 90 | 68% | *53.3%* | +14.7% | -7% |
| *Santes Ffraid /* St Brigids | 49 | 51 | 100% | *100%* | 0% | +25% |
| *ALl* /LA | **533** | **542** | **75.8%** | **76.4%** | **-0.6%** | **+0.8%** |
| *Holl Cymru* / All Wales | ***11,167*** | ***11,368*** | ***75%*** | ***72%*** | | |

*Astudiaethau Crefyddol TGAU – Cwrs Byr* / GCSE Religious Studies – Short Course

*Yr Holl ymgeiswyr* / All candidates:

| ***Ysgol*** **/School** | **2015** ***Nifer a safodd yr arholiad/*** **entry** | **2014** ***Nifer a safodd yr arholiad/*** **entry** | **2015 A*-C %** | **2014 A*-C %** | ***Gwahaniaeth/*** **Difference %** | **+/- *Cenedlaethol* / National 2014** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Dinbych/* Denbigh | 82 | 1 | 53.7% | 100.0% | -46.3% | 1.7% |
| Glan Clwyd | - | - | - | - | - | - |
| Prestatyn | 38 | - | 21.1% | - | N/A | -30.9% |
| Dinas Bran | 22 | 3 | 36.4% | 100.0% | -63.6% | -15.6% |
| Brynhyfryd | 1 | - | 0% | - | N/A | -52% |
| *Y Rhyl* / Rhyl | 90 | - | 4.4% | - | N/A | -47.6% |
| *Ben Ed. Jones /* Bl Ed Jones | 52 | 30 | 13.5% | 10.0% | +3.5% | -38.5% |
| *Santes Ffraid /* St Brigids | 4 | - | 50% | - | N/A | -2% |
| *ALl* /LA | **293** | **34** | **25.6%** | **20.6%** | **+5%** | -26.4% |
| *Holl Cymru* / All Wales | ***10,098*** | ***12,191*** | ***52%*** | ***53%*** | | |

*Astudiaethau Crefyddol TGAU Safon Uwch*/ GCE Religious Studies – A - Level

*Yr Holl ymgeiswyr* / All candidates:

| ***Ysgol*** **/School** | **2015** ***Nifer a safodd yr arholiad/*** **entry** | **2014** ***Nifer a safodd yr arholiad/*** **entry** | **2015 A*-C %** | **2014 A*-C %** | ***Gwahaniaeth*** **/ Difference %** | **+/-** ***Cenedlaethol*** **/ National 2014** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Dinbych/* Denbigh | 1 | 5 | 100 | 80 | +20 | +19 |
| Glan Clwyd | 1 | 4 | 100 | 75 | +25 | +19 |
| Prestatyn | 23 | 37 | 73.9 | 89.2 | -15.3 | -7.1 |
| Dinas Bran | 2 | 4 | 100 | 100 | 0 | +19 |
| Brynhyfryd | 12 | 13 | 100 | 100 | 0 | +19 |
| *Y Rhyl /* Rhyl | - | - | - | - | | |
| *Ben Ed. Jones /* Bl Ed Jones | - | - | - | - | | |
| *Santes Ffraid /* St Brigids | 12 | 14 | 91.7 | 98.9 | -7.2 | +10.7 |
| *ALl* /LA | **51** | **77** | **86.3** | **89.6** | **-3.3** | **+5.3** |
| *Holl Cymru* / All Wales | ***1444*** | ***1432*** | ***81*** | ***89*** | | |

## *Cymharu canlyniadau â'r cyfartaledd cenedlaethol* / Results Comparison to National Average

| ***Cwrs Llawn / Full Course*** ***A* - C*** | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2005** | **2006** | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** | **2011** | **2012** | **2013** | **2014** |
| *Dinbych*/ Denbigh | 61.2% | 67.9% | 42.9% | 70.6% | 72.7% | 67.4 | 77.8 | 72.0 | 66.7 | 77.8 |
| Glan Clwyd | 54.6% | 63.6% | 100% | 68.8% | 91.7% | 50.0 | 81.8 | 100 | 88.9. | 80.0 |
| Prestatyn | 65.4% | 81.9% | 75.5% | 77.3% | 89.5% | 78.7 | 89.7 | 84.2 | 70.1 | 82.3 |
| Dinas Bran | 44.4% | 72.7% | 0.0% | 100% | 100% | 50.0 | 87.2 | 70.8 | 70.0 | 78.8 |
| Brynhyfryd | 40.0% | 66.7% | 100% | 100% | 100% | 81.0 | 86.9 | 94.0 | 95.2 | 93.8 |
| *Y Rhyl* / Rhyl | 60.0% | 0.0% | 100% | 100% | 100% | -- | 88.9 | 84.7 | 100.0 | 54.8 |
| *Ben Ed. Jones* / Bl Ed Jones | 41.9% | 22.4% | 39.1% | 55.8% | 40.7% | 52.3 | 53.2 | 72.2 | - | - |
| *Santes Ffraid* / St Brigids | 95.7% | 98.0% | ---- | 97.9% | 95.5% | 94.5 | 100 | 98.1 | 96.2 | 100 |
| **Nat. Average** | **70.2%** | **73.7%** | **71.1%** | **72.0%** | **71.9%** | **74.3** | **72.9** | **73.6** | ***73*** | ***72*** |

| ***Cwrs Byr*** **/ Short Course A* - C** | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2005** | **2006** | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** | **2011** | **2012** | **2013** | **2014** |
| *Dinbych*/ Denbigh | 70.6% | 65.9% | 51.8% | 58.6% | 40.8% | 26.0 | 29.1 | 32.3 | 51.3 | 100.0 |
| Glan Clwyd | N/A | N/A | 53.3% | 64.7% | 84.0% | -- | -- | -- | - | - |
| Prestatyn | 20.0% | 42.9% | 28.6% | 14.3% | 9.5% | -- | 2.2 | 7.0 | 14.7 | - |
| Dinas Bran | 32.9% | 28.3% | 60.6% | 28.3% | 80.0% | 77.6 | 29.1 | 0.0 | 30.8 | 100.0 |
| Brynhyfryd | N/A | N/A | N/A | 100% | 100% | -- | 0.0 | 0.0 | - | - |
| *Y Rhyl* / Rhyl | 60.6% | 46.8% | 23.8% | 33.0% | 46.6% | 19.0 | 21.5 | 20.2 | 30.7 | - |
| *Ben Ed. Jones* / Bl Ed Jones | 6.7% | 17.4% | 6.1% | 18.8% | 16.7% | -- | 0.0 | 0.0 | 31.6 | 10.0 |
| *Santes Ffraid* / St Brigids | 93.6% | 98.0% | 88.7% | 96.2% | 96.1% | -- | 100 | -- | 0.0 | - |
| **Nat. Average** | ***58.7%*** | ***59.7%*** | ***58.8%*** | ***59.7%*** | ***59.2%*** | ***59.7*** | ***58.0*** | ***59.3*** | ***50.6*** | ***53*** |

## *Cymharu canlyniadau â'r cyfartaledd cenedlaethol* / Results Comparison to National Average

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Safon Uwch* / A Level** | | | | | | | | | | |
| | **2005** | **2006** | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** | **2011** | **2012** | **2013** | **2014** |
| *Dinbych*/ Denbigh | 83.3% | 66.7% | 60.9% | 64.3% | 83.3% | 41.1 | 45.4 | -- | 50 | 80 |
| Glan Clwyd | N/A | N/A | N/A | 75.0% | N/A | -- | 100 | -- | 100 | 75 |
| Prestatyn | 92.0% | 64.7% | 77.8% | 34.6% | 82.1% | 57.1 | 64.8 | 100 | 94.6 | 89.2 |
| Dinas Bran | 0.0% | 0.0% | 100% | N/A | N/A | -- | 0.0 | -- | - | 100 |
| Brynhyfryd | 30.0% | 20.0% | N/A | 100% | 83.3% | 80.0 | 100 | 100 | 87.5 | 100 |
| *Y Rhyl* / Rhyl | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | -- | 0.0 | -- | - | - |
| *Ben Ed. Jones* / Bl Ed Jones | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | -- | 0.0 | -- | - | - |
| *Santes Ffraid* / St Brigids | 33.3% | 58.3% | 50.0% | 100% | 100% | 83.2 | 100 | 100 | 90.0 | 98.9 |
| **Nat. Average** | ***65.4%*** | ***65.5%*** | ***75.9%*** | ***75.7%*** | ***79.7%*** | ***78.5*** | ***78.0*** | ***98.3*** | ***81*** | ***89*** |
| | | | | | | | | | | |

***Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 1*** ***CANLYNIADAU TAGAU 2015: PAWB – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL***

**Denbighshire Schools – Table 1** **GCSE RESULTS 2015: ALL – RELIGIOUS STUDIES**

| ***Ysgolion*** **Schools** | ***Cyfanswm*** **/Totals** | **A*** | % | **A** | % | **B** | % | **C** | % | **D** | % | **E** | % | **F** | % | **G** | % | **U** | % | **% A* - C** | **% A* - G** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Dinbych* Denbigh | 16 | 1 | 6.3% | 8 | 50.0% | 4 | 25.0% | 2 | 12.5% | 1 | 6.3% | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ***93.8*** | ***100*** |
| Glan Clwyd | 22 | 4 | 18.2% | 6 | 27.3% | 3 | 13.6% | 4 | 18.2% | 3 | 13.6% | 0 | 0 | 2 | 9.1% | 0 | 0 | 0 | 0 | ***77.3*** | ***100*** |
| Prestatyn | 236 | 14 | 5.9% | 49 | 20.8% | 79 | 33.5% | 57 | 24.2% | 20 | 8.5% | 8 | 3.4% | 3 | 1.3% | 4 | 1.7% | 1 | 0.4% | ***84.3*** | ***99.2*** |
| Dinas Bran | 101 | 6 | 5.9% | 6 | 5.9% | 20 | 19.8% | 22 | 21.8% | 22 | 21.8% | 14 | 13.9% | 5 | 5.0% | 4 | 4.0% | 2 | 2.0% | ***53.5*** | ***98*** |
| Brynhyfryd | 22 | 4 | 18.2% | 9 | 40.9% | 3 | 13.6% | 3 | 13.6% | 1 | 4.5% | 2 | 9.1% | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ***86.4*** | ***100*** |
| *Y Rhyl*/Rhyl | 37 | 0 | 0 | 1 | 2.7% | 7 | 18.9% | 9 | 24.3% | 7 | 18.9% | 11 | 29.7% | 1 | 2.7% | 1 | 2.7% | 0 | 0 | ***45.9*** | ***100*** |
| *Ben Ed Jones*/Bl. Ed Jones | 50 | 0 | 0.0% | 7 | 14.0% | 13 | 26.0% | 14 | 28.0% | 9 | 18.0% | 3 | 6.0% | 2 | 4.0% | 1 | 2.0% | 1 | 2.0% | ***68*** | ***98*** |
| *Santes Ffraid/* St Brigids | 49 | 13 | 26.5% | 15 | 30.6% | 19 | 38.8% | 2 | 4.1% | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ***100*** | ***100*** |
| ***Cyfanswm AALl/*** **LA Totals** | **533** | **42** | **7.9%** | **101** | **18.9%** | **148** | **27.8%** | **113** | **21.2%** | **63** | **11.8%** | **38** | **7.1%** | **13** | **2.4%** | **10** | **1.9%** | **4** | **0.8%** | **75.8** | **99.7** |
| ***Holl Cymru All Wales*** | ***11,167*** | | ***11*** | | ***19*** | | ***24*** | | ***20*** | | ***9*** | | ***7*** | | ***4*** | | ***3*** | | ***2*** | ***75*** | ***98*** |

***Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 2*** ***CANLYNIADAU TAGAU 2014: PAWB – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL***

**Denbighshire Schools – Table 2** **GCSE RESULTS 2014: ALL – RELIGIOUS STUDIES**

| ***Ysgolion*** **Schools** | ***Cyfanswm*** **/Totals** | **A*** | % | **A** | % | **B** | % | **C** | % | **D** | % | **E** | % | **F** | % | **G** | % | **U** | % | ***% A* - C*** | ***% A* - G*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Dinbych* Denbigh | 27 | 3 | 11.1% | 5 | 18.5% | 9 | 33.3% | 4 | 14.8% | 4 | 14.8% | 2 | 7.4% | | 0.0% | | 0.0% | | 0.0% | ***77.8%*** | ***100%*** |
| Glan Clwyd | 20 | 6 | 30.0% | 6 | 30.0% | 3 | 15.0% | 1 | 5.0% | 4 | 20.0% | | 0.0% | | 0.0% | | 0.0% | | 0.0% | ***80.0%*** | ***100%*** |
| Prestatyn | 220 | 16 | 7.3% | 46 | 20.9% | 59 | 26.8% | 60 | 27.3% | 13 | 5.9% | 18 | 8.2% | 4 | 1.8% | 4 | 1.8% | | 0.0% | ***82.3%*** | ***100%*** |
| Dinas Bran | 80 | 1 | 1.3% | 11 | 13.8% | 23 | 28.8% | 28 | 35.0% | 8 | 10.0% | 2 | 2.5% | 4 | 5.0% | 3 | 3.8% | | 0.0% | ***78.8%*** | ***100%*** |
| Brynhyfryd | 16 | 10 | 62.5% | 4 | 25.0% | | 0.0% | 1 | 6.3% | | 0.0% | 1 | 6.3% | | 0.0% | | 0.0% | | 0.0% | ***93.8%*** | ***100%*** |
| *Y Rhyl*/Rhyl | 42 | 1 | 2.4% | 2 | 4.8% | 9 | 21.4% | 11 | 26.2% | 6 | 14.3% | 9 | 21.4% | 2 | 4.8% | 2 | 4.8% | | 0.0% | ***54.8%*** | ***100%*** |
| *Ben Ed Jones*/Bl. Ed Jones | 90 | 2 | 2.2% | 8 | 8.9% | 13 | 14.4% | 25 | 27.8% | 14 | 15.6% | 10 | 11.1% | 6 | 6.7% | 9 | 10% | 3 | 3.3% | ***53.3%*** | ***96.7%*** |
| *Santes Ffraid/* St Brigids | 51 | 15 | 29.4% | 21 | 41.2% | 11 | 21.6% | 4 | 7.8% | | 0.0% | | 0.0% | | 0.0% | | 0.0% | | 0.0% | ***100%*** | ***100%*** |
| ***Cyfanswm AALl/*** **LA Totals** | **542** | **54** | **10%** | **10 3** | **19%** | **125** | **23.1%** | **132** | **24.2%** | **49** | **9%** | **42** | **7.7%** | **16** | **3%** | **18** | **3.3%** | **3** | **0.6%** | ***76.4%*** | ***99.4%*** |
| ***Holl Cymru All Wales*** | ***11,368*** | | ***10%*** | | ***19%*** | | ***22%*** | | ***19%*** | | ***11%*** | | ***7%*** | | ***5%*** | | ***3%*** | | ***2%*** | ***72%*** | ***98%*** |

## *Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 3* *CANLYDIADAU TGAU 2015 PAWB – ASTUDIAETHAU GREFYDDOL: CWRS BYR*
## Denbighshire Schools – Table 3 GCSE RESULTS 2015: ALL – RELIGIOUS EDUCATION SHORT COURSE

| ***Ysgolion*** **Schools** | ***Cyfanswm*** **/Totals** | **A*** | **%** | **A** | **%** | **B** | **%** | **C** | **%** | **D** | **%** | **E** | **%** | **F** | **%** | **G** | **%** | **U** | **%** | **% A* - C** | **% A* - G** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Dinbych* Denbigh | 82 | 5 | 6.1% | 5 | 6.1% | 18 | 22.0% | 16 | 19.5% | 11 | 13.4% | 18 | 22.0% | 6 | 7.3% | 2 | 2.4% | 1 | 1.2% | *53.7* | *98.8* |
| Glan Clwyd | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Prestatyn | 38 | 1 | 2.6% | 0 | 0 | 1 | 2.6% | 6 | 15.8% | 0 | 0 | 2 | 5.3% | 8 | 21.1% | 11 | 28.9% | 5 | 13.2% | *21.1* | *76.3* |
| Dinas Bran | 22 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 4.5% | 7 | 31.8% | 1 | 4.5% | 6 | 27.3% | 4 | 18.2% | 3 | 13.6% | 0 | 0 | *36.4* | *100* |
| Brynhyfryd | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 100.0% | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | *0* | *100* |
| *Y Rhyl*/Rhyl | 90 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 4.4% | 6 | 6.7% | 11 | 12.2% | 17 | 18.9% | 16 | 17.8% | 34 | 37.8% | *4.4* | *60* |
| *Ben Ed Jones*/Bl. Ed Jones | 52 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 3.8% | 5 | 9.6% | 7 | 13.5% | 14 | 26.9% | 9 | 17.3% | 8 | 15.4% | 6 | 11.5% | *13.5* | *86.5* |
| *Santes Ffraid/* St Brigids | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 25.0% | 1 | 25.0% | 1 | 25.0% | 1 | 25.0% | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | *50* | *100* |
| *Cyfanswm AALl/* LA Totals | **293** | **6** | **2.0%** | **5** | **1.7%** | **24** | **8.2%** | **40** | **13.7%** | **27** | **9.2%** | **52** | **17.7%** | **45** | **15.4%** | **40** | **13.7%** | **46** | **15.7%** | ***25.6*** | ***81.6*** |
| *Holl Cymru All Wales* | ***10,098*** | | ***4*** | | ***10*** | | ***17*** | | ***21*** | | ***14*** | | ***12*** | | ***9*** | | ***6*** | | ***7*** | **52** | **93** |

**Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 4** **CANLYDIADAU TGAU 2014 PAWB – ASTUDIAETHAU GREFYDDOL: CWRS BYR**
**Denbighshire Schools – Table 4** **GCSE RESULTS 2014: ALL – RELIGIOUS EDUCATION SHORT COURSE**

| ***Ysgolion/*** **Schools** | ***Cyfanswm/*** **Totals** | **A*** | % | **A** | % | **B** | % | **C** | % | **D** | % | **E** | % | **F** | % | **G** | % | **U** | % | **% A* - C** | **% A* - G** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Dinbych* Denbigh | 1 | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 100.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | ***100.0%*** | ***100.0%*** |
| Glan Clwyd | 0 | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | ***0.0%*** | ***0.0%*** |
| Prestatyn | 0 | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | ***0.0%*** | ***0.0%*** |
| Dinas Bran | 3 | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 33.3% | 2 | 66.7% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | ***100.0%*** | ***100.0%*** |
| Brynhyfryd | 0 | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | ***0.0%*** | ***0.0%*** |
| *Y Rhyl*/Rhyl | 0 | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | ***0.0%*** | ***0.0%*** |
| *Bes Ed Jones*/Bl. Ed Jones | 30 | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 3 | 10.0% | 4 | 13.3% | 6 | 20.0% | 3 | 10.0% | 5 | 16.7% | 9 | 30.0% | ***10.0%*** | ***70.0%*** |
| *Santes Ffraid/* St Brigids | 0 | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | ***0.0%*** | ***0.0%*** |
| ***Cyfanswm AALl*** **LEA Totals** | **34** | **0** | **0.0%** | **0** | **0.0%** | **2** | **5.9%** | **5** | **14.7%** | **4** | **11.8%** | **6** | **17.6%** | **3** | **8.8%** | **5** | **14.7%** | **9** | **26.5%** | **20.6%** | **73.5%** |
| ***Holl Cymru All Wales*** | ***12,191*** | | ***5%*** | | ***10%*** | | ***17%*** | | ***21%*** | | ***14%*** | | ***13%*** | | ***8%*** | | ***6%*** | | ***6%*** | ***53%*** | ***94%*** |

*Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 5* *CANLYNIADAU SAFON UWCH 2015 – PAWB ASTUDIAETHAU CREFYDDOL*

Denbighshire Schools – Table 5 GCE ADVANCED LEVEL RESULTS 2015: ALL – RELIGIOUS STUDIES

| ***Ysgolion*** **Schools** | ***Cyfanswm*** **/Totals** | **A*** | % | **A** | % | **B** | % | **C** | % | **D** | % | **E** | % | **U** | % | **% A* - C** | **% A* - E** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Dinbych* Denbigh | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 100.0% | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 100 | 100 |
| Glan Clwyd | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 100.0% | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 100 | 100 |
| Prestatyn | 23 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 | 26.1% | 11 | 47.8% | 4 | 17.4% | 2 | 8.7% | 0 | 0 | 73.9 | 100 |
| Dinas Bran | 2 | 0 | 0 | 2 | 100.0% | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 100 | 100 |
| Brynhyfryd | 12 | 0 | 0 | 3 | 25.0% | 4 | 33.3% | 5 | 41.7% | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 100 | 100 |
| *Y Rhyl*/Rhyl | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| *Ben Ed Jones*/Bl. Ed Jones | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| *Santes Ffraid/* St Brigids | 12 | 1 | 8.3% | 3 | 25.0% | 3 | 25.0% | 4 | 33.3% | 1 | 8.3% | 0 | 0 | 0 | 0 | 91.7 | 100 |
| *Cyfanswm AALl/* LA Totals | **51** | **1** | **2.0%** | **8** | **15.7%** | **13** | **25.5%** | **22** | **43.1%** | **5** | **9.8%** | **2** | **3.9%** | **0** | **0** | **86.3** | **100** |
| ***Holl Cymru All Wales*** | **1444** | | **4** | | **19** | | **31** | | **27** | | **14** | | **5** | | **0** | **81** | **100** |

Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 6 – CANLYNIADAU SAFON UWCH 2014 – PAWB ASTUDIAETHAU CREFYDDOL

**Denbighshire Schools – Table 6 GCE ADVANCED LEVEL RESULTS 2014: ALL – RELIGIOUS STUDIES**

| ***Ysgolion*** **Schools** | ***Cyfanswm*** **Totals** | **A*** | **%** | **A** | **%** | **B** | **%** | **C** | **%** | **D** | **%** | **E** | **%** | **U** | **%** | **% A* - C** | **% A* - E** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Dinbych* Denbigh | 5 | 0 | 0.0% | 1 | 20.0% | 2 | 40.0% | 1 | 20.0% | 1 | 20.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | ***80%*** | ***100%*** |
| Glan Clwyd | 4 | 0 | 0.0% | 1 | 25.0% | 1 | 25.0% | 1 | 25.0% | 1 | 25.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | ***75%*** | ***100%*** |
| Prestatyn | 37 | 0 | 0.0% | 3 | 8.1% | 15 | 40.5% | 15 | 40.5% | 4 | 10.8% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | ***89.2%*** | ***100%*** |
| Dinas Bran | 4 | 0 | 0.0% | 1 | 25.0% | 2 | 50.0% | 1 | 25.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | ***100%*** | ***100%*** |
| Brynhyfryd | 13 | 1 | 7.7% | 4 | 30.8% | 6 | 46.2% | 2 | 15.4% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | ***100%*** | ***100%*** |
| *Y Rhyl*/Rhyl | 0 | 0 | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | ***0.0%*** | ***0*** |
| *Ben Ed Jones*/Bl. Ed Jones | 0 | 0 | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | ***0.0%*** | ***0*** |
| *Santes Ffraid* St Brigids | 14 | 0 | 0.0% | 4 | 28.6% | 6 | 42.9% | 3 | 21.4% | 1 | 7.1% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | ***98.9%*** | ***100%*** |
| ***Cyfanswm AALl*** **LEA Totals** | **77** | **1** | **1.3%** | **14** | **18.2%** | **32** | **41.6%** | **23** | **29.9%** | **7** | **9.1%** | **0** | **0.0%** | **0** | **0.0%** | ***89.6%*** | ***100%*** |
| ***Holl Cymru All Wales*** | ***1432*** | | ***3%*** | | ***15%*** | | ***32%*** | | ***29%*** | | ***14%*** | | ***5%*** | | ***2%*** | ***89%*** | ***98%*** |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| **Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol<br>(CYSAG)** | | |
|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | 13 Chwefror 2015 |
| Eitem ar y Rhaglen: | **7** | Manylion yr Adroddiad |

<u>*Cefndir yr Adroddiad:*</u>

- Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru wedi anfon arolwg i bob ysgol ar effaith Bagloriaeth Cymru ar Addysg Grefyddol.

<u>*Pwrpas y cyflwyniad:*</u>

- Adolygu'r ymatebion i ysgolion.

<u>*Argymhellion:*</u>

- I drosglwyddo'r arolygon a gwblhawyd i CCYSAGC

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG)**

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | 13 Chwefror 2015 |
| Eitem ar y Rhaglen: | **8** | Manylion yr Adroddiad |

*Cefndir yr Adroddiad:*

- Mae Huw Lewis wedi cytuno i symud ymlaen ar bob un o'r argymhellion o adolygiad yr Athro Donaldson o'r cwricwlwm. Mae dogfen 'Cwricwlwm am oes' wedi cael ei hysgrifennu i osod y cynlluniau ar gyfer sut y bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei ddatblygu.

*Pwrpas yr Adroddiad:*

- Amlinellu datblygiad y cwricwlwm fel y cynigiwyd yn y ddogfen cwricwlwm am oes.

*Argymhellion:*

- Derbyn a thrafod materion sy'n codi o’r cyflwyniad.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| **Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol<br>(CYSAG)** | | |
|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | 13 Chwefror 2015 |
| Eitem ar y Rhaglen: | **9** | Manylion yr Adroddiad |

*Cefndir*

Gofynnwyd i ysgolion a ydynt yn dymuno cymryd rhan mewn grwpiau cydweithredol rhwng ysgolion gan ganolbwyntio ar Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd.

*Pwrpas*

- Rhoi diweddariad i CYSAG ar y cynnig i gefnogi grwpiau cydweithredol rhwng ysgolion

*Argymhellion:*

- Trafod a derbyn y newyddion diweddaraf

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol**
**(CYSAG)**

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | 13 Chwefror 2015 |
| Eitem ar y Rhaglen: | **10** | Manylion yr Adroddiad |

*Cefndir yr Adroddiad:*

Mae CYSAG yn dal i fod yn aelod o Gymdeithas CYSAG Cymru ac yn derbyn adroddiadau cyfarfodydd gan yr aelodau sydd yn eu mynychu, ac yn derbyn cofnodion ac unrhyw adroddiad arall gan y Gymdeithas.

*Pwrpas yr Adroddiad:*

Rhoi gwybod i aelodau am yr hyn a ganolbwyntiwyd arno a phrif ganlyniadau'r cyfarfod blaenorol.

*Argymhellion:*

- Derbyn cofnodion cyfarfod diwethaf y Gymdeithas
- Cytuno ar bresenoldeb yn CCYSAGC Hwlffordd, Sir Benfro nesaf ar 8 Mawrth.
- Er gwybodaeth: Mae CYSAG Sir Ddinbych yn cynnal cyfarfod gwanwyn CCYSAGC ar 23 Mehefin 2016.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru, Glyn Ebwy, 25 Tachwedd 2015 (10.30am – 3pm)**

***Wales Association of SACREs meeting, Ebbw Vale, 25 November 2015 (10.30am – 3pm)***

**Cofnodion**

Ensemble cerddorol a chôr plant o ysgolion Blaenau Gwent:
- Ensemble Gitâr Canolfan Gerdd Blaenau Gwent
- Côr Ysgol Gynradd Sant Illtyd

1. Cyflwyniad a chroeso / *Introduction and welcome*

Agorodd y Cadeirydd Newydd, Phil Lord, y cyfarfod drwy groesawu aelodau i'r Swyddfeydd Cyffredinol ym Mlaenau Gwent a diolch i'r plant am eu croeso cerddorol. Diolchodd Phil hefyd i Gavin Craigen am y gwaith caled yr oedd wedi ei wneud i Gymdeithas CYSAG Cymru yn ystod ei flynyddoedd lawer o wasanaeth i'r Gymdeithas ac eglurodd i aelodau bod Gavin wedi ymddiswyddo o'i rôl fel Cadeirydd Cymdeithas CYSAG Cymru yn ystod yr haf eleni.

Rhoddodd Lynnette Jones, Cyfarwyddwr Addysg Blaenau Gwent a Keren Bender, Cadeirydd CYSAG Blaenau Gwent groeso swyddogol i aelodau gan ddymuno cyfarfod cynhyrchiol a difyr iddynt.

Rhoddodd Disgyblion Blwyddyn 9 o *Ail Gam Dysgu Cymunedol Ebwy Fawr* gyflwyniad ar pam fod gwersi addysg grefyddol yn bwysig iddyn nhw, a chanodd côr Ysgol Gynradd Sant Illtyd gân bryfoclyd o'r enw "Think before we speak".

Yn dilyn y cyflwyniadau hyn cafwyd dwy deyrnged deimladwy i'n cydweithwyr a'n cyfeillion a fu farw eleni. Talwyd y deyrnged gyntaf i Ben Wigley gan Rheinallt Thomas, a'r ail i Denize Morris gan Gill Vaisey. Yn dilyn y ddwy deyrnged ymunodd aelodau gyda'i gilydd mewn munud o dawelwch.

2. Adfyfyrio tawel / *Quiet reflection*

   Gofynnodd Phil i aelodau feddwl am gyfraniadau Ben a Denize i Gymdeithas CYSAG Cymru, y byd addysg grefyddol yng Nghymru, a thu hwnt. Gofynnodd i aelodau hefyd ystyried eu cyfraniadau eu hunain.

3. Ymddiheuriadau / *Apologies*

   Tania ap Siôn, Yr Athro Leslie Francis, Helen Gibbon, David Kitchen

4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Yr Wyddgrug, 25 Mehefin 2015 / *Minutes of meeting held in Mold, 25 June 2015*

Derbyniwyd y cofnodion fel gwir gofnod o’r cyfarfod.

5. Materion yn codi / *Matters arising*

Eitem 3. Cadarnhaodd LJ bod y llythyr diolch wedi ei anfon at Tudor Thomas ar ei ymddeoliad o CBAC a bod Cymdeithas CYSAG Cymru wedi derbyn ateb gan Tudor.

Eitem 5. Bagloriaeth Cymru. Mynegwyd pryder eto dros sicrwydd addysg grefyddol yn CA4 wrth i Fagloriaeth Cymru gael ei gwneud yn bwnc amserlen statudol. Roedd aelodau’n poeni bod rhai ysgolion yn defnyddio amser Addysg Grefyddol ar yr amserlen i ddysgu Bagloriaeth Cymru. Dywedodd cynrychiolydd athrawon yn y cyfarfod ei fod yn anodd darparu ar gyfer Addysg Grefyddol graidd o fewn Bagloriaeth Cymru sy'n cwrdd yr angen statudol ac y bydd yn heriol i unrhyw ysgol neu adran Addysg Grefyddol a fydd yn gorfod gwneud hyn. Cytunodd aelodau yn y cyfarfod bod angen monitro’r sefyllfa’n ofalus.

**Cam Gweithredu: Bydd LJ yn drafftio llythyr cyn y Nadolig i glercod CYSAG yn holi am wybodaeth ynghylch beth sy’n digwydd yn eu hysgolion lleol. Bydd arolwg agored syml yn cael ei atodi y gellir ei anfon at bob ysgol i’w gwblhau a’i ddychwelyd, gan nodi bod CYSAGau yn poeni am y mater o amserlennu ac eisiau cefnogi ysgolion.**

Eitem 6. Cyflwyniad PYCAG gan Mary Parry yng nghyfarfod mis Mawrth. Diolchodd Gill Vaisey i Mary am rannu ei gwaith ac am gynhyrchu’r adnodd defnyddiol hwn a thrwy hynny’n hael iawn yn sicrhau bod y CD Rom ar gael i bob ysgol uwchradd yng Nghymru. Mae athrawon yn ei ddefnyddio ac mae’n gweithio’n dda iawn o fewn cynlluniau gwaith Addysg Grefyddol.

Eitem 9. Cynhadledd Fforwm Ewropeaidd Athrawon Addysg Grefyddol. Gofynnodd Phil Lord i aelodau oedd yn bresennol fwydo gwybodaeth yn ôl i’w CYSAGau eu hunain am gynhadledd Fforwm Ewropeaidd Athrawon Addysg Grefyddol a gynhelir rhwng 31 Awst a 3 Medi 2016. Am fwy o wybodaeth am y gynhadledd, cyfeiriwyd aelodau at Wefan y Fforwm.

Eitem 10. Dogfen ganllawiau Addysg Grefyddol. Mae Gill yn gwneud cynnydd da ar y canllaw hwn ac atgoffodd aelodau ei fod yn canolbwyntio ar reoli’r hawl i dynnu allan o addysg grefyddol. Mae angen astudiaethau achos o ysgolion/CYSAGau ar Gill.

Eitem 10. Unrhyw Fater Arall Cadarnhaodd Rheinallt Thomas bod *‘RE ideas’* bellach mewn lliw ac yn cael ei anfon allan at holl glercod CYSAG. Estynnwyd gwahoddiad agored i athrawon am gymorth ganddynt gydag ‘*RE ideas’.* Cafwyd help gan athro o Wrecsam eleni. Cadarnhaodd Rheinallt y gellid talu athrawon am eu hamser a’u gwaith.

6. Cyflwyniad PYCAG / *NAPfRE presentation*:

Archwilio Ffydd yn yr Ysgol Gynradd gan Liz Arthur gydag athrawes Ysgol gynradd o Flaenau Gwent/ *Exploring Faith in the Primary School by Liz Arthur and Karen Fairburn from Ebbw Fawr Learning Community Primary Phase, in Blaenau Gwent*

Cynhaliodd Cam Cyntaf Dysgu Cymunedol Ebwy Fawr Wythnos Addysg Grefyddol a Chelf lwyddiannus iawn fel rhan o'r rhaglen flynyddol o 'wythnosau pwnc'. Drwy gydol yr wythnos gwahoddwyd nifer o westeion o amrywiaeth o wahanol gredoau i'r ysgol i gwrdd a gweithio gyda'r plant. Prif bwrpas yr wythnos oedd rhoi cyfle i'r disgyblion gwrdd a rhyngweithio gyda phobl o wahanol gredoau. Cynrychiolwyd amrywiaeth o gredoau ac enwadau Cristnogol. Cymerodd y plant ran mewn amrywiaeth o weithgareddau drwy gydol yr wythnos a oedd wedi eu cynllunio a'u darparu gan y cynrychiolwyr ffydd gyda chymorth gan yr athro oedd yn arwain yr wythnos a hefyd gan Gill Vaisey, a ddarparodd rai o'r adnoddau.

Roedd yr ymateb gan y disgyblion ar ddiwedd yr wythnos yn cynnwys sylwadau fel "Roedd hynna'n ddiddorol iawn Miss, mae'n fwy cyffrous dysgu gan berson go iawn" a "Fe wnes i wir fwynhau cwrdd Mr Sharma, fe oedd y darn gorau. Roedd e'n gwybod llawer am yr arteffactau a sut maent yn cael eu defnyddio". Roedd ymateb yr athrawon ddiwedd yr wythnos yn cynnwys sylwadau fel "Roedd y plant wrth eu boddau ac yn gofyn cwestiynau synhwyrol gan eu bod wirioneddol am ddarganfod mwy am grefydd" ac "Roedd y rhyngweithio gyda phlant yn arbennig ac fe wnes i ddysgu llawer iawn am grefyddau nad oeddwn yn gwybod amdanynt".

Diolchodd Phil Lord i Liz Arthur a Karen Fairburn am rannu'r cyflwyniad, a dderbyniodd lawer o sylwadau cadarnhaol o'r llawr. Roedd sylwadau gan aelodau am sut i ddatblygu'r wythnos yn cynnwys: cynnwys cynrychiolwyr o enwadau gwahanol o ffydd heblaw am Gristnogaeth hefyd; gofyn i rieni anfon arteffact crefyddol i'r ysgol gyda'u plentyn am yr wythnos a bod y plant yn egluro beth mae'n ei olygu iddyn nhw a sut mae'n cael ei ddefnyddio yn y teulu, fel rhan o ddeialog rhyng-grefyddol; cyfeirio at y Fframwaith Addysg Grefyddol cyfredol a lefelau cyrhaeddiad ar gyfer Addysg Grefyddol wrth drefnu'r digwyddiad.

7. Diweddariadau*/Up-dates:*

**Cysylltiadau a chyfarfodydd Llywodraeth Cymru/ *Welsh Government contacts and meetings* – Libby Jones**

Cyflwynodd Libby David Sargent, y cyswllt newydd ar gyfer Llywodraeth Cymru a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Cafodd aelodau eu diweddaru ar y trafodaethau a gynhaliwyd yn ystod y cyfarfod ar 30 Medi gyda chydweithwyr o Lywodraeth Cymru, Steve Price, John Pugsley (Adran Cwricwlwm) a Karen Cornish (Pennaeth tîm gweithredu adolygiad). Prif ffocws y cyfarfod oedd Yr Adolygiad Cwricwlwm, Dyfodol Llwyddiannus a CYSAGau, roedd eitemau eraill a drafodwyd yn cynnwys Adolygiad Adroddiadau Blynyddol CYSAG, y cadarnhawyd y byddai'n aros ar gylch 3 blynedd, ac ymholiadau Llywodraeth Cymru am wybodaeth ganllaw ar addoli ar y cyd ac am wybodaeth ynghylch y niferoedd o Ddyneiddwyr sy'n aelodau o CYSAG.

Rhoddodd Mary Parry wybod i aelodau am gynlluniau PYCAG i gynhyrchu disgrifiad o beth yw addysg grefyddol dda ac i gynnig y ddogfen ganllaw hon i ysgolion Arloesi sy'n gyfrifol am ysgrifennu/datblygu'r cwricwlwm ar gyfer Addysg Grefyddol neu'r Dyniaethau fel rhan o'r cam nesaf o'r broses adolygu.

**CCB Cyngor Addysg Grefyddol a chyfathrebu cyffredinol/ *Religious Education Council AGM and general communication*– Gill Vaisey and Phil Lord**

Cynhaliwyd y CCB yn Gurdwara Sri Guru Singh Sabha yn Llundain oedd yn cynnwys adroddiad gan y Cadeirydd newydd, Trevor Cooling, ac anerchiad gan Rudi Lockhart, y Prif Weithredwr newydd. Hysbyswyd aelodau bod yr holl wybodaeth sy'n cael ei rannu yn y CCB yn benodol i addysg grefyddol yn Lloegr yn unig ac er mwyn gwella'r sefyllfa hon cynigodd Gill Vaisey, sy'n cynrychioli Cymdeithas CYSAG Cymru mewn cyfarfodydd CAG, anfon y wybodaeth addas o Gymru cyn pob cyfarfod os gellir anfon cyfeiriad y Prif Swyddog Gweithredol ati o flaen llaw.

Roedd eitemau ar yr Agenda yn cynnwys:

*Tywyswyr Ifanc,* oedd yn cynnwys fideo a chyflwyniad. Mae 12 ysgol yn ymwneud â'r fenter hon ar y funud, gan gynnwys Ysgol Aberconwy o Gymru. Mae Gill Vaisey yn gobeithio y gall Phil Lord gefnogi'r ysgol gan ei fod yn ysgol leol i'w ardal ef o waith. Cynigwyd gwahoddiad agored i grwpiau Ffydd estyn allan i'r tywyswyr ysgol ar gyfer Addysg Grefyddol, er mwyn eu cefnogi nhw a derbyn cymorth.

*Adolygu'r fframwaith cyfreithiol a'r fframwaith polisi ehangach ar gyfer Addysg Grefyddol,* oedd yn cynnwys trafodaethau bwrdd.

*Ymgyrch Recriwtio Athrawon,* lle dangoswyd fideo broffesiynol.

Pwysleisiodd Gill ei fod yn bwysig ac yn werth chweil parhau i ddatblygu'r berthynas hon gyda CAG. Gall Cymru gefnogi Lloegr gymaint ac y gall Lloegr gefnogi Cymru. Cadarnhaodd Phil fod Rudi Lockhart eisoes wedi bod mewn cyswllt rheolaidd gydag ef ac mae'n ymwybodol o beth sy'n digwydd yng Nghymru.

Cyfarfod y Fforwm Ffydd/ *Faith Forum meeting* – Phil Lord

Cyfarfu Phil Lord gyda nifer o gynrychiolwyr o Gymru gyfan ar ddydd Llun 23 Tachwedd. Eu prif bryder oedd beth oedd y Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi ddweud yn ei araith ddiweddar o safbwynt newid enw Addysg Grefyddol ayb. Mae Phil wedi cytuno rhannu'r wybodaeth gyda'r cynrychiolwyr fel y gall gwybodaeth gael ei rannu'r ddwy ffordd.

Wedi hyn cododd aelodau rai cwestiynau ynghylch cynllun y cwricwlwm newydd ar gyfer Addysg Grefyddol ac os yw Gweinidogion yn hollol ymwybodol o beth yw Addysg Grefyddol yng Nghymru heddiw. Dywedodd Phil y byddai'n gwneud yn siŵr bod aelodau'n cael eu diweddaru'n gyson.

**Cynhadledd Addoli ar y Cyd / *Collective Worship Conference* - Gill Vaisey look at the PP.**

Rhannodd Gill gyflwyniad PowerPoint oedd yn crynhoi'r prif bwyntiau y soniwyd amdanynt yn y gynhadledd sydd wedi eu hatodi i'r cofnodion fel atodiad. Rhoddodd Gill wybod i aelodau am

Adroddiad a rannwyd yn y gynhadledd. Mae copi o'r Adroddiad ar gael yma:
https://www.dropbox.com/sh/3ijyaknnt5cl9jx/AAC8PyypvTS9t-zxPsx_E2Vta?dl=0

Sicrhaodd Gill yr aelodau mai dim ond gosod ffeithiau fel maent yn sefyll heddiw mae'r adroddiad yn ei wneud a bwriad yr Adroddiad yw ysgogi meddwl ffres ar addoli ar y cyd mewn ysgolion.

**Cam Gweithredu: Bydd LJ yn trefnu cyfarfod rhwng cydweithwyr Llywodraeth Cymru, yr academyddion sy'n arwain y fenter hon a chynrychiolwyr o Gymdeithas CYSAG Cymru.**

8. Cyflwyniad PYCAG/ NAPfRE presentation:

Manylebau TGAU diwygiedig ar gyfer Astudiaethau Crefyddol/ *Revised GCSE Specifications for Religious Studies- Lynda Maddock, WJEC*

Lynda Maddock yw'r Swyddog Pwnc newydd ar gyfer Astudiaethau Crefyddol yn CBAC. Mae ei chydweithiwr Andrew Pearce yn gyfrifol am Astudiaethau Crefyddol AS ac A2 a chyfeiriodd Lynda gwestiynau am AS neu A2 at Andrew.

AS ac A2: Sicrhaodd Lynda aelodau bod gwybodaeth ar yr AS ac A2 cyfredol ar gael ar wefan CBAC a bod y cymhwyster AS yn annibynnol yng Nghymru ond hefyd yn cyfrif tuag at Lefel A os caiff ei sefyll. Yn Lloegr, mae'r cymhwyster AS yn sefyll yn annibynnol ac **nid yw'n** cyfrif tuag at lefel A. Mae'r cymhwyster lefel A yn Lloegr yn annibynnol.

Cafodd Aelodau wybod bod Hodder yn cyhoeddi llyfrau ar gyfer manyleb Astudiaethau Crefyddol yn Lloegr, ond does dim byd wedi ei benderfynu eto ar gyfer Cymru. Mae CBAC wedi gorfod cynnwys o leiaf un gred anghrefyddol mewn o leiaf un rhan o'r fanyleb Astudiaethau Crefyddol oherwydd lobio gan Ddyneiddwyr.

TGAU: Mae CBAC wedi ymgeisio am ohirio'r fanyleb Astudiaethau Crefyddol newydd am flwyddyn, ond mae Cymwysterau Cymru wedi gwrthod y cais.

Disgrifiodd Lynda'r fanyleb newydd ar gyfer Lloegr gan egluro ei bod yn berthnasol i Gymru oherwydd bod angen gydraddoldeb yn ansawdd a safonau'r ddau gymhwyster er mwyn sicrhau tegwch a chydraddoldeb i fyfyrwyr yn y ddwy wlad.

Yng Nghymru dim ond un fanyleb fydd a bydd yn parhau yn ddull unedol fel gall disgyblion Blwyddyn 10 gael mynediad at Gwrs Byr ar ôl dim ond blwyddyn o astudio.  Cadarnhawyd y gall disgyblion hefyd sefyll un arholiad Cwrs Byr yn unig (unai Uned 1 neu Uned 2) ar ddiwedd y ddwy flynedd, neu sefyll y ddau arholiad Cwrs Byr (Uned 1 ac Uned 2) er mwyn derbyn cymhwyster Cwrs Llawn.  Gobeithir y bydd Uned 1 yn debyg i fanyleb gyfredol B ac y bydd Uned 2 yn debyg i fanyleb gyfredol A.

Mae Uned 1 yn debygol o gynnwys ymatebion crefyddol i faterion athronyddol, ble bydd gofyn i ddisgyblion ddewis dwy grefydd i astudio themâu fel Bywyd a Marwolaeth a Da a Drwg. Yn ogystal â hyn bydd y myfyrwyr yn astudio ymarferion a dysgeidiaethau craidd y ddwy grefydd.

Mae Uned 2 yn debygol o gynnwys ymatebion crefyddol i faterion moesegol, ble bydd gofyn i ddisgyblion ddewis dwy grefydd i astudio themâu fel Perthnasau, a Hawliau Dynol. Yn ogystal â hyn bydd y myfyrwyr yn astudio ymarferion a dysgeidiaethau craidd y ddwy grefydd.

Mae'n debygol mai Cristnogaeth fydd y ffydd orfodol ar gyfer y fanyleb hon a bydd yn rhaid i fyfyrwyr ddewis astudio un grefydd arall. Bydd y ddwy Uned yn gwneud cwrs llawn a bydd un Uned yn gwneud cwrs byr.

Roedd gwybodaeth ychwanegol yn cynnwys y canlynol: Bydd Ysgolion Catholig yn gwneud 75% o Gatholigiaeth a 25% o Iddewiaeth a bydd teitl y cwrs yn adlewyrchu hyn; Ni fydd angen gwneud gwaith cwrs ar gyfer TGAU Astudiaethau Crefyddol; mae'r fanyleb wedi ei diweddaru a'r defnydd asesu sampl i fod i fynd i Cymwysterau Cymru ar 18 Rhagfyr a gan y gobeithir y bydd y drafft terfynol mewn lle ar gyfer Diwrnod HMS CBAC athrawon yn y gwanwyn.

Gwahoddir CYSAGau i ysgrifennu at Brif Weithredwr CBAC i leisio unrhyw bryderon sydd ganddynt.

**Cam Gweithredu: Bydd LJ yn ysgrifennu at CBAC er mwyn lleisio pryderon Cymdeithas CYSAGau Cymru gan gynnwys cais i ohirio'r fanyleb am flwyddyn ac i geisio cael gwybodaeth am Uned un ar y wefan fis Ionawr, er mwyn cynorthwyo athrawon gyda'u cynllunio. Bydd LJ yn anfon copi o'r llythyr i Glercod CYSAG cyn y Nadolig.**

Diolchodd Phil i Lynda am ei chyflwyniad a sicrhaodd y rhai oedd yn bresennol y bydd Cymdeithas CYSAG Cymru yn parhau i gefnogi a gweithio gyda CBAC.

9. Adolygiad Cwricwlwm / *Curriculum Review*- Libby Jones

Mae diweddariad ysgrifenedig ar yr eitem hon wedi ei atodi i'r cofnodion fel atodiad.

Diolchodd Bethan James, Cadeirydd PYCAG i Phil am gynryhcioli Cymdeithas CYSAG Cymru (a PYCAG) a holodd am ddiweddariad ysgrifenedig bras ar gyfer CYSAGau o'r cyfarfod ym mis Rhagfyr er mwyn cynorthwyo unrhyw gydweithwyr i ateb cwestiynau a fyddant yn eu cael gan athrawon. Cytunodd Phil i wneud hyn.

Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 30 Medi 2015 / *Report from the Executive Committee held on 30 September 2015*

Derbyniwyd a chytunwyd ar yr adroddiad fel un cywir.

10. Gohebiaeth /*Correspondence*

Rhannodd Libby nifer o lythyrau ac e-byst fel gohebiaeth, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt wedi eu trin yn ystod y cyfarfod.

11. U.F.A. U.F.A

12. Dyddiad y cyfarfod nesaf / *Date for next meeting*: 8 Mawrth 2016, Sir Benfro / 8 March *2016*, Pembrokeshire

Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol / *Future meeting dates:* Haf */ Summer 23/6/ 2016* Sir Ddinbych */ Denbighshire;* Hydref */ Autumn 18/11/2016* Sir Gaerfyrddin */ Carmarthenshire;*
Gwanwyn */ Spring 2017* Sir Fynwy */ Monmouthshire.*

*Diolch i'r Clerc Emma Bailey a Rheolwr y Swyddfeydd Cyffredinol, Lisa Osborne, Alan Williams, y swyddog Gwella Ysgolion a drefnodd y gerddoriaeth, a Stephan y Cyfieithydd.*

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag